Syniadau am sut i ymarfer eich Cymraeg dros wyliau'r Nadolig

- Gofynnwch am lyfr Cymraeg am y Nadolig a darllenwch bennod bob dydd e.e. un o lyfrau'r gyfres Amdani efallai?
- Gwyliwch raglenni ar S4C fel y clasur o'r 80au, 'Y Dyn Nath Ddwyn y 'Dolig'
- Darllenwch erthyglau ar wefannau Golwg 360 a BBC Cymru Fyw a defnyddiwch BBC Vocab fel cymorth
- Ysgrifennwch ddyddiadur yn Gymraeg bob dydd dros y Nadolig
- Ewch i wasanaeth carolau Cymraeg - Ymrestrwch ar Echlysur, Menter Caerdydd, i dderbyn ebyst am ddigwyddiadau Cymraeg ar draws y ddinas
- Darllenwch yr arwyddion yn Gymraeg pan dych chi'n siopa a dewiswch y Gymraeg wrth dalu mewn archfarchnadoedd
- Canwch ganeuon Nadolig yn Gymraeg. Cysylltwch â Gwenllian Willis: willisg1@caerdydd.ac.uk am gopi o'r geiriau
- Ymrestrwch ar y Cwrs Calan yng Nghaerdydd i'ch roi chi ar ben ffordd yn y flwyddyn newydd.